Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

Cofnodion Cyfarfod Hybrid 31 Mawrth 2025 am 7:00 yr hwyr.

| ENW | PRESENNOL | YMDDIHEURO |
|---|---|---|
| Hywel James Sinclair Evans | ✓ | |
| Alan Harper-Smith | ✓ | |
| Greta Hughes | ✓ | |
| Gwenllian Davenport Hughes | ✓ | |
| John Brinley Jones | ✓ | |
| Thomas Victor Jones | ✓ | |
| William Roger Jones | ✓ | |
| Andrew Parry (Cadeirydd) | ✓ | |
| Ian Goronwy Williams (Is-gadeirydd) | ✓ | |
| Keith Williams | ✓ | |
| Kevin Wheatley | | ✓ |
| **HEFYD** | | |
| Caroline Jones (Clerc) | ✓ | |
| Ann Llwyd (cyfieithydd, ar Zoom) | ✓ | |
| * wedi cyrraedd neu adael y cyfarfod lle cofnodwyd. | | |

1. **Presennol ac ymddiheuriadau**
   Rhestrwyd yr aelodau'n bresennol, yn ogystal â'r ymddiheuriadau, yn y tabl uchod.
   Nododd y Clerc ei bod wedi ysgrifennu at Kevin Wheatly i dynnu sylw at ei bresenoldeb mewn cyfarfodydd, hynny yw, nad oedd wedi mynychu ers Gorffennaf 2024. Derbyniwyd ymateb ganddo, darllenwyd y cynnwys allan gan y Cadeirydd.
   **Cytunwyd: I ganiatáu absenoldeb o gyfarfodydd Cyngor Cymuned Llanbedrog i Kevin Wheatley hyd at gyfarfod mis Medi 2025.**

2. **Datgan Buddiant Ariannol neu Bersonol**
   Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad buddiant ariannol na phersonol.

3. **Cofnodion - er mwyn cywirdeb yn unig. Cyngor 24 Chwefror 2025**
   Derbyniwyd y cofnodion yn unfrydol fel rhai cywir.
   Cynigiwyd gan: Gwenllian Davenport Hughes
   Eiliwyd gan: Ian Goronwy Williams

   Darllenodd y Cadeirydd llythyr a dderbyniwyd gan y Gwasanaeth Tân yn dilyn y llythyr anfonwyd atynt gan Gyngor Cymuned Llanbedrog i ddiolch am eu gwaith rheoli'r tân ar Fynydd Tir y Cwmwd yn ddiweddar.

4. **Unrhyw Fater Brys**
   **4.1.** Cais am gymhorthdal gan SSAFA Cronfa Rhanbarthol Cymru.
   **Penderfynwyd: Clerc i ofyn am fantolen ganddynt cyn gwneud penderfyniad, ac i'w ail gyflwyno wedi i'r fantolen cael ei dderbyn.**
   **4.2.** Cynrychiolaeth Cyngor Cymuned Llanbedrog ar sefydliadau allanol – AHNE ac Un Llais Cymru. Diolchwyd i Victor Jones am gynrychioli Cyngor Cymuned Llanbedrog

ar bwyllgorau AHNE ac Un Llais Cymru ar hyd y blynyddoedd. Derbyniwyd y byddai'n sefyll i lawr o'r pwyllgorau yma cyn gynted a bo modd. Yn dilyn trafodaeth;
**Cytunwyd:**

- **Andrew Parry i gynrychioli Cyngor Cymuned Llanbedrog ar bwyllgor ardal AHNE.**
- **Ni dderbyniwyd cynnig gan yr aelodau i gynrychioli Cyngor Cymuned Llanbedrog ar bwyllgor ardal Un Llais Cymru; felly fe ofynnwyd i'r aelodau ail ystyried, ac i gadarnhau aelod (neu ddim) yng nghyfarfod mis Ebrill.**

**4.3.** Cyfeillion Llŷn - ystyried polisi gosod lleol i Lanbedrog a Memorandwm o Ddealltwriaeth Cynghorau Cymuned Cymraeg Gwynedd. Cafwyd trafodaeth ar gynnwys y dogfennau wedi eu cyflwyno i Gyngor Cymuned Llanbedrog gan Gyfeillion Llŷn. Yn dilyn trafodaeth:
**Cytunwyd:**

- **Disgwyl am y polisi gosod a fydd yn cael ei greu gan Gyngor Gwynedd a Thai Clwyd Alun ar y cartrefi cymdeithasol ym Mhenyberth, ac i wneud sylwadau ar y polisi hwn cyn ystyried a fydd angen polisi gosod lleol ar gyfer cymuned Llanbedrog.**
- **I beidio ymrwymo i'r memorandwm o ddealltwriaeth ar hyn o bryd**

**4.4.** Dilyniant o ail gyfarfod o gynghorau cymuned a thref Pen Llŷn: Bu Ian Williams i'r cyfarfod mis Mawrth 2025 a chyflwynodd cynnwys y cofnodion cyfarfod diweddaraf Cymunedoli. Roedd y grŵp Cymunedoli wedi cynnig dau opsiwn ar gyfer ddyfodol y grŵp. Yn dilyn trafodaeth:
**Cytunwyd: Cefnogi opsiwn 1* ar gyfer dyfodol y grŵp. Y Clerc i gyfleu cefnogaeth Cyngor Cymuned Llanbedrog i Arfon Hughes, Cymunedoli. Ian Williams a James Evans i gynrychioli Cyngor Cymuned Llanbedrog yn y fenter gymdeithasol Cymunedoli.**

*Ymgorffori fel cymdeithas gydweithredol gyfreithiol gyda Chadeirydd, Trysorydd ac Ysgrifennydd gyda 2 gynrychiolydd o bob cyngor cymuned ar y bwrdd (os yn haws, gall cynghorau ddewis unigolion o'u hardal os nad oes diddordeb gan gynghorwyr i ymwneud â'r fenter)

**5. Llwybrau**
Cadarnhaodd y Clerc bod Cyngor Gwynedd wedi ad-dalu £570.60 tuag at gost cynnal a chadw'r llwybrau yn y flwyddyn 2024-25.
Derbyniwyd sylw bod y llwybr troellog i lawr i'r A499 o lwybr ger Penybryn yn beryg.
**Cytunwyd:**

- **I'r Clerc gysylltu gyda Roger Fisher i drefnu iddo asesu'r gwaith sydd ei angen ar y llwybr troellog.**
- **Clerc i gysylltu gyda Chyngor Gwynedd unwaith eto i gael gwybod a oedd cynnydd ar ledaenu'r llwybr tu gefn i ysgol / tir Refail.**

**6. Y Fynwent, y Fynwent Newydd**
Adroddodd y Clerc bod Dilwyn Williams wedi cychwyn ar drwsio'r wal yn y fynwent a'i fod wedi gofyn am gyngor gan saer coed am y gwaith byddai angen i drwsio difrod i sied y cymydog. Disgwylir manylion maes o law.

Claddwyd y cyn David John Russell yn y fynwent ar 28 Mawrth, cydymdeimlwyd gyda'r Cynghorydd Angela Russell a'r teulu ar eu profedigaeth.

Tynnwyd sylw at y ffi codi carreg yn y fynwent, a oedd yn £155 ar hyn o bryd. Nid oedd yn glir a oedd ffi wedi ei gytuno am ail-osod carreg, hynny yw, os oedd carreg wedi bodoli eisoes ac un newydd am gael ei roi yn ei le, nid oedd y rheolau presennol yn eglur.
**Penderfynwyd: i'r Clerc ddiwygio'r ffioedd a rheolau fynwent ar gyfer mabwysiadu yn y cyfarfod blynyddol nesaf - i nodi nad oedd ffi am ail-osod carreg bedd yn y fynwent, dim ond ffi am garreg newydd.**

Adroddodd y Clerc ei bod wedi cyfarfod gyda Greta Hughes a John Brinley Jones ar safle'r Fynwent Newydd i gychwyn trafodaethau ar sut i symud y datblygiad yn ei flaen. Roedd y Clerc yn mynd ati i gasglu gwybodaeth a fyddai ei angen.

7. **Cae Chwarae**
Derbyniwyd bil Gethin Hughes am dorri coeden yn y cae chwarae, rhannwyd y manylion gyda'r aelodau cyn cytuno i'w dalu o dan bwynt 9 isod.
Trafodwyd y ffens a oedd angen ei godi, nid oedd Rhys Jones wedi gallu ei drwsio.
**Cytunwyd: i'r Cadeirydd ofyn i Alaw Ceris drefnu i'r contractwr a fyddai'n gweithio ar y cae chwarae i osod y ffens.**

8. **Neuadd y Pentref**
Adroddodd Ian Williams bod y gwaith glanhau wedi ei wneud bellach. Roedd trafferthion dal yn bodoli efo'r draeniau gan fod pethau yn cael eu rhoi yn y toiledau nad oedd yn addas i'w gwaredu ynddynt. Cyhoeddwyd bod cyfarfod nesaf o bwyllgor Neuadd y Pentref yn cael ei gynnal ar 10 Ebrill 2025.
Adroddodd Keith Williams bod pwyllgor Neuadd y Pentref wedi gofyn iddo gael pris am ddrysau newydd, a'i fod bellach wedi derbyn dau bris am ddrysau ychydig yn wahanol yn y ddau bris. Byddai'r pwyllgor yn trafod y rhain ac yn ceisio am grant tuag at y gost.
Nodwyd bod y switshis golau/gwresogydd dal heb eu trwsio.
**Cytunwyd: I'r Clerc i ddilyn i fyny gyda Barbara Warren i drefnu trwsio'r switshis.**

9. **Taliadau**
   **9.1.** Cytunwyd i'r taliadau isod:
   - **a)** Cyflog y Clerc: £443.67
   - **b)** PAYE a YG: £111.00
   - **c)** Aelodaeth Un Llais Cymru: £297
   - **d)** Viking Direct: £247.97
   - **e)** Ann Llwyd: £70.00
   - **f)** Gethin Hughes, contractwr torri coed: £3,700.00

   Derbyniwyd yn unfrydol.

**9.2. Derbyniadau**

**a)** Cyngor Gwynedd (llwybrau): £570.60

Derbyniwyd manylion y derbyniadau er gwybodaeth.

**9.3.** Datganiadau banc: Rhannwyd y datganiadau gyda'r papurau o flaen llaw, y balansau oedd:

a) Natwest Business Reserve: £1,203.40
b) Natwest Current: £25,555.44
Natwest Liquidity Manager: £71,761.19

**10. Ceisiadau Cynllunio**

**10.1.** C24/0362/38/AC Datblygiadau yn Woodcroft. Derbyniwyd e-bost gan drigolyn lleol yn tynnu sylw at datblygiadau i'r tŷ nad oedd yn unol i'r cais gwreiddiol, sef datblygiad heb ganiatâd cynllunio.
**Cytunwyd: I'r Clerc ysgrifennu at Gyngor Gwynedd yn dangos pryder am y datblygiad di-ganiatâd yma.**

**10.2.** C23/0338/38/LL Datblygiad Solar Lôn Pin. Roedd diwygiadau i'r cais gwreiddiol wedi ei wneud. Nid oedd yr wybodaeth ychwanegol yn newid barn Cyngor Cymuned Llanbedrog ar y chwe gwrthwynebiad a gyflwynwyd eisoes gan Gyngor Cymuned Llanbedrog ar y datblygiad. Roedd gan Gyngor Cymuned Llanbedrog wrthwynebiad pellach i:
*"Eitem 7. Budd cymunedol: Yn ogystal â thaliadau rhent tir i dirfeddiannwr y safle, mae'r datblygwr wedi cynnig ymgysylltu â'r Cyngor Cymuned ynghylch cyfraniadau budd cymunedol yn y dyfodol. Mae'r posibilrwydd o fuddsoddiad cymunedol yn cael ei archwilio; fodd bynnag, mae hyn yn heriol i'w gyflawni ac ni ellir ei sicrhau."*
Gyda'r newid yma, roedd Cyngor Cymuned Llanbedrog yn gwrthwynebu'r datblygiad gan nad oedd budd cymunedol yn cael ei sicrhau.

**10.3.** C25/0146/38/DT Holton. Dim gwrthwynebiad.

Daeth y cyfarfod i ben am 20.35.

Cyfarfod nesaf dydd Llun, Ebrill 28, 2025.

| | |
|---|---|
| **COFNODION DRAFFT WEDI EU CADARNHAU GAN Y CADEIRYDD**<br><br>**ARWYDDWYD** *D.A. Parry* **DYDDIAD:** 08.04.2025 | |
| **COFNODION WEDI EU CADARNHAU**<br><br>**ARWYDDWYD** | **DYDDIAD:** |